**Rhif: WG47762**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad (WG47762) - crynodeb o'r ymatebion

## Cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynnig i ddiwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (fel y'u diwygiwyd) fel y gall Prif Weinidog Cymru benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am gyfnod o 7 mlynedd yn y swydd yn hytrach na thymor o 4 blynedd.

Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad ar gynnig i newid telerau penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel bod tymor y swydd yn 7 mlynedd yn hytrach na'r cyfnod 4 blynedd presennol.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Pobl Hŷn a Gofalwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: olderpeopleandcarers@llyw.cymru

### Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfen yr ymgynghoriad: hyperddolen

## Cynnwys

Cynnwys ........ 3
1. Cefndir ........ 4
2. Cwestiynau'r ymgynghoriad ........ 5
3. Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ........ 6
4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ........ 7
Cwestiwn 1 ........ 7
Cwestiwn 2 ........ 8
Cwestiwn 3 ........ 9
Casgliadau o Gwestiynau 2 a 3 ........ 9
Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru ........ 9
Cwestiwn 4 ........ 9
Cwestiwn 5 ........ 10
Casgliadau o Gwestiynau 4 a 5 ........ 10
Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru ........ 10
Cwestiwn 6 ........ 10
Casgliadau o Gwestiwn 6 ........ 11
Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru ........ 11
Atodiad 1 ........ 12
Atodiad 2 ........ 13
Atodiad 3 ........ 17
Atodiad 4 ........ 18
Atodiad 5 ........ 19

## 1. Cefndir

Mae gan Gymru bedwar Comisiynydd sy'n cael eu penodi gan Brif Weinidog Cymru. Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae gan bob un ohonynt bwerau statudol gwahanol ond cefnogir y Comisiynwyr gan swyddogion Llywodraeth Cymru trwy drefniadau ariannu a llywodraethu tebyg. Penodir Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am gyfnod sefydlog o 7 mlynedd na ellir ei ymestyn.

Fodd bynnag, penodir Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am gyfnod o bedair blynedd. Mae posibilrwydd o estyniad o ddwy flynedd i'r cyfnod pedair blynedd; ond mae angen cytundeb y Prif Weinidog sydd angen ystyried barn y rhai sy'n cynrychioli pobl hŷn yng Nghymru. Fel arall, mae modd i'r Comisiynydd ailymgeisio dan broses gystadleuol am ail gyfnod o bedair blynedd yn y swydd.

Prif swyddogaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw i:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.
- hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer, a dileu gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth am rôl y Comisiynydd, ewch i'r wefan: Hafan - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Penodir y Comisiynydd yn unol â'r rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007

fel y'u diwygiwyd gan:

- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

Rydym yn cynnig y dylai'r tymor swydd sy'n berthnasol i holl Gomisiynwyr Cymru fod yn gyson am 7 mlynedd sefydlog, na ellir ei ymestyn. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y pedwar Comisiynydd yr un tymor yn y swydd ac felly'r un cyfle i weithio gyda'r grwpiau o bobl y maent yn eu cynrychioli ac i hyrwyddo newid ar eu rhan.

I wneud hyn, rydym yn cynnig diwygio 'Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau")' i ganiatáu i'r Prif Weinidog benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am gyfnod o 7 mlynedd yn hytrach na'r tymor presennol o 4 blynedd. Bydd y cyfle i ofyn i'r Prif Weinidog am estyniad o 2 flynedd, neu i ailymgeisio am gyfnod o 4 blynedd arall yn y swydd drwy broses gystadleuol, yn cael ei dynnu o'r Rheoliadau hyn.

Bydd Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf Cymru yn cael ei benodi erbyn mis Awst 2024. Hoffem wneud y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau fel y gellir penodi Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf Cymru am gyfnod sefydlog o 7 mlynedd na ellir ei ymestyn.

## 2. Cwestiynau’r ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn rhwng 19 Mehefin a 12 Medi 2023. Gofynnwyd pum cwestiwn:

**Cwestiwn 1**
Ydych chi'n cwblhau'r arolwg fel aelod o'r cyhoedd neu ar ran sefydliad?

Aelod o'r cyhoedd ☐

Ar ran sefydliad ☐

**Cwestiwn 2**
Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylem wneud y newidiadau arfaethedig hyn.

A ydych yn cytuno y dylem newid y Rheoliadau ar gyfer penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o gyfnod o 4 blynedd yn y swydd i gyfnod o 7 mlynedd yn y swydd yn unol â Chomisiynwyr eraill Cymru? Wrth wneud hynny, byddwn yn dileu'r opsiwn presennol i ofyn am estyniad o 2 flynedd neu ymgeisio am ail dymor o 4 blynedd yn y swydd.

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn gwybod ☐

**Cwestiwn 3**
A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i gefnogi'ch ateb?

**Cwestiwn 4**
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r newidiadau arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol a lliniaru’r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 5**
Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall y newidiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar

gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 6**
Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau tebygol ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn sgil y newidiadau hyn? Byddai eich barn ar sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru, i'w groesawu hefyd.

## 3. Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad

Cafodd yr ymgynghoriad 12 wythnos ei gynnal drwy wefan Llywodraeth Cymru rhwng 19 Mehefin a 12 Medi. Rhoddodd y ddogfen ymgynghori drosolwg o'r rhesymau y tu ôl i'r ymgynghoriad a manylion am sut i ymateb. Dyma hyperddolen i'r ymgynghoriad. Ym mis Mehefin, gwnaethom anfon e-bost at ein rhanddeiliaid yn eu gwahodd i ymateb ac i rannu'r gwahoddiad yn eu cymunedau a'u rhwydweithiau ledled Cymru.

Roedd y sefydliadau a wahoddwyd i ymateb sy'n cynrychioli barn pobl hŷn yn cynnwys:

- Aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Age Cymru
- Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol (NPC) Cymru
- Cymru Egnïol
- Cynghrair Pobl Hŷn Cymru. Fforwm Pobl Hŷn Cymru
- Swyddogion Cymru o Blaid Pobl Hŷn ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru
- Cynghorydd Etholedig. Hyrwyddwyr Cymru o Blaid Pobl Hŷn ym mhob awdurdod lleol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Sefydliadau partner eraill yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector

Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu drwy sianelau Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd a'i drafod mewn cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol.

Roedd sawl ffordd o ymateb:

- llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- lawrlwytho a llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i dychwelyd atom mewn e-bost i: olderpeopleandcarers@llyw.cymru
- lawrlwytho a llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i phostio i'r cyfeiriad hwn:

Tîm Pobl Hŷn a Gofalwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ

## 4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd cyfanswm o 71 o ymatebwyr wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Darparodd 23 ymatebion 'rhannol' a 48 ymatebion 'cyflawn'.

O'r 48 ymateb 'cyflawn', cafodd 46 eu cwblhau ar-lein a derbyniwyd 2 drwy e-bost. Mae'r rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. Nid yw'r rhai sydd wedi gofyn am gael aros yn ddienw wedi'u cynnwys.


O'r ymatebion 'rhannol' a 'chyflawn' a dderbyniwyd, atebodd 61 'YDW' neu 'NAC YDW' i'r prif gwestiwn yn gofyn a ydynt yn cytuno y dylid newid y rheoliadau ynghylch penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o 4 i 7 mlynedd. Y grŵp hwn fydd prif ffocws yr adroddiad hwn.

O'r 61 a atebodd 'YDW' neu 'NAC YDW', cyflwynodd 41 sylwadau pellach, gydag 8 yn eu cyflwyno yn Gymraeg a 33 yn Saesneg.

## Cwestiwn 1

**Ydych chi'n cwblhau'r arolwg fel aelod o'r cyhoedd neu ar ran sefydliad?**

O'r 48 o ymatebion 'cyflawn', roedd 32 gan aelodau'r cyhoedd ac 14 yn ymateb ar ran sefydliad. O'r 23 o ymatebion 'rhannol', roedd 11 gan aelodau'r cyhoedd a 3 yn ymateb ar ran sefydliad. Mae Graff 1 yn dangos dadansoddiad yn ôl canran.




Graff 1.


## Cwestiwn 2

**Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylem wneud y newidiadau arfaethedig hyn. A ydych yn cytuno y dylem newid y rheoliadau ar gyfer penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o gyfnod o 4 blynedd yn y swydd i gyfnod o 7 mlynedd yn y swydd yn unol â Chomisiynwyr eraill Cymru? Wrth wneud hynny, byddwn yn dileu'r opsiwn presennol i ofyn am estyniad o 2 flynedd neu ailymgeisio.**

O'r 48 o ymatebion 'cyflawn', atebodd 30 'YDW', eu bod yn cytuno â'r newid arfaethedig, atebodd 17 'NAC YDW', nad oeddent yn cytuno â'r newid arfaethedig, ac atebodd 1 ymatebydd 'DDIM yn SIŴR'.

O'r 23 o ymatebion 'rhannol', atebodd 11 'YDW' a 3 'NAC YDW'. Ni ymatebodd 9 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Mae Graff 2 yn dangos dadansoddiad yn ôl canran o'r holl ymatebion cyflawn a rhannol a atebodd 'YDW' neu 'NAC YDW'.




Graff 2.

## Cwestiwn 3

**A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i gefnogi'ch ateb?**

Rhoddodd 41 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Rhestrir y sylwadau mwyaf arwyddocaol yn Atodiad 2.

O'r rhai a roddodd sylwadau ychwanegol, roedd 18 o blaid y newid. Roedd eu sylwadau'n canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i alinio â'r Comisiynwyr eraill ac y byddai 7 mlynedd yn rhoi cyfle i ddatblygu dull mwy hirdymor o weithio gyda phobl hŷn. Gwnaeth rhai sylwadau ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod siaradwr Cymraeg yn y swydd.

Gwnaeth 17 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol i gefnogi pam roeddent wedi ateb 'NAC YDW' i'r newid arfaethedig. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y risg y gallai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ddod yn hunanfodlon dros gyfnod hirach. Roedd rhai'n teimlo bod y cyfle i wneud cais am estyniad yn bwysig fel y gellid ei ddyfarnu ar sail teilyngdod ac effeithiolrwydd.

Mynegodd rhai deimladau cryf o anfodlonrwydd gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac roeddent yn teimlo y dylid adolygu'r rôl yn ei chyfanrwydd.

**<u>Casgliadau o Gwestiynau 2 a 3</u>**

Er bod nifer nodedig (33%) o'r ymatebwyr yn erbyn y syniad o newid y rheoliadau ar gyfer penodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o 4 blynedd i gyfnod o 7 mlynedd yn y swydd, mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (67%) eu bod yn cefnogi'r newid hwn.

**<u>Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru</u>**

Gan fod y mwyafrif o blaid y newid hwn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'r paratoadau ar gyfer diwygio 'Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007 trwy gyflwyno cyfres o reoliadau diwygio.

Bydd y rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol. Mae hyn yn golygu y bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud gan y Gweinidog perthnasol ac yna'n cael eu gosod gerbron y Senedd. Daw'r rheoliadau i rym erbyn y dyddiad a nodir yn y rheoliadau oni bai bod Aelodau'r Senedd yn galw arnynt i gael eu dadlau, a bod yr aelodau'n pleidleisio yn eu herbyn. Os daw'r rheoliadau diwygiedig i rym, bydd y Prif Weinidog yn parhau i benodi OPCW nesaf ar gyfnod sefydlog o 7 mlynedd na ellir ei ymestyn.

## Cwestiwn 4

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddent yn eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Cafwyd 33 o ymatebion i Gwestiwn 4. Rhestrir y sylwadau mwyaf arwyddocaol yn Atodiad 3:

## Cwestiwn 5

**Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y newidiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cafwyd 26 o ymatebion i Gwestiwn 5 a oedd yn ychwanegol i Gwestiwn 4. Rhestrir yr ymatebion mwyaf arwyddocaol yn Atodiad 4.

**Casgliadau o Gwestiynau 4 a 5**

Roedd wyth o'r 33 o ymatebwyr a ychwanegodd sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 4 yn teimlo y dylai'r Comisiynydd allu siarad Cymraeg neu y dylai fod yn ddysgwr Cymraeg ymroddedig. Roeddent yn teimlo y byddai cyfnod swydd tymor hwy yn cefnogi'r dull hwn.

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr ddim yn gwybod neu ddim yn credu y byddai'r newidiadau i'r rheoliadau yn cael effaith ar y Gymraeg, er i un bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Cafwyd 26 o sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 5. Roedd rhai yn canolbwyntio ar bwysigrwydd bod gan y Comisiynydd sgiliau iaith Gymraeg, ac y gallai cyfnod swydd tymor hwy gefnogi datblygiad y sgiliau hyn. Mynegodd eraill bryder y gallai gwneud y Gymraeg yn hanfodol i'r rôl gyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr addas, gan nodi bod angen dod o hyd i gydbwysedd.

Nododd un y byddai'n croesawu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan Gomisiynwyr yn y dyfodol, gan gynnwys ymddangosiadau cyhoeddus ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Pwysleisiodd rhai eu teimlad bod pedair blynedd yn briodol neu nad oeddent yn fodlon â rôl y Comisiynydd yn gyffredinol.

**Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru**

Bydd cyfnod swydd presennol y Comisiynydd yn dod i ben ym mis Awst 2024. Bydd y broses recriwtio ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn nesaf Cymru yn dechrau yn ystod hydref 2023. Rhoddir ystyriaeth ofalus i sicrhau bod gofynion y Gymraeg ar gyfer swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn briodol fel y gellir cyflawni'r rôl yn effeithiol.

## Cwestiwn 6

**Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau tebygol ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig yn sgil y newidiadau hyn? Byddai eich barn ar sut**

**y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru, i'w groesawu hefyd.**

Cafwyd 26 o ymatebion i Gwestiwn 6. Rhestrir yr ymatebion mwyaf arwyddocaol yn Atodiad 5.

**Casgliadau o Gwestiwn 6**

Cafwyd cymysgedd o sylwadau ar Gwestiwn 6. Roedd rhai’n teimlo y byddai cyfnod tymor hwy yn y swydd yn sicrhau mwy o barhad yn y berthynas ag unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Byddai rhai’n croesawu ymdrechion i ddenu amrywiaeth ehangach o ymgeiswyr. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai cyfnod tymor hwy yn y swydd arwain at hunanfodlonrwydd, a nododd eraill y byddai tymor byrrach yn cynnig dull newydd o weithio gydag unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

**Y camau nesaf i Lywodraeth Cymru**

Mae angen ymdrechu i ddenu amrywiaeth eang o ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio ar gyfer y Comisiynydd nesaf. Mae angen rhoi ystyriaeth briodol i fynd i'r afael â phryderon rhai ymatebwyr ynghylch hunanfodlonrwydd wrth gefnogi unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd ymgeiswyr am rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael eu hannog i ystyried eu dull o fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Atodiad 1

Rhestr o'r ymatebwyr a 'gwblhaodd' y ffurflen ac a oedd yn hapus i rannu eu manylion.

1. Christopher Thomas, aelod o'r cyhoedd
2. Malcolm Worth, Sied Dynion Bae Colwyn
3. Alan Curtis, aelod o'r cyhoedd, Fforwm Pobl Hŷn,
4. John Evans Jones, aelod o'r cyhoedd, Cynghorydd
5. Dr Sandip Raha, aelod o'r cyhoedd
6. Gareth Parry, aelod o’r cyhoedd
7. Martyn Glen Hughes Jones, aelod o'r cyhoedd
8. Ceri Davies, aelod o’r cyhoedd
9. Sue Jordan, aelod o’r cyhoedd
10. Cyngor Bro Morgannwg
11. Martyn Glen Hughes Jones, aelod o'r cyhoedd, Gofal a Thrwsio ym Mhowys
12. Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
13. Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd, Cyngor Sir Ddinbych
14. Gofal a Thrwsio Cymru
15. R.H. Wyn Williams, aelod o’r cyhoedd
16. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
17. Gabriela Todd, aelod o’r cyhoedd
18. Fforwm Pobl Hŷn Cymru
19. Age Cymru
20. Archwilio Cymru

**Cyflwynwyd y sylwadau a marciwyd gyda * yn wreiddiol yn Saesneg.**

## Atodiad 2

**Gofynnodd cwestiwn 3 am sylwadau ychwanegol i'r ymateb a roddwyd yng Nghwestiwn 2 a ofynnodd a ydynt yn cytuno y dylid ymestyn cyfnod y swydd i 7 mlynedd ac, wrth wneud hynny, dileu'r opsiwn presennol i ofyn am estyniad o 2 flynedd neu ailymgeisio.**

1. Dylai'r swydd hon fod yr un fath â swyddi comisiynwyr eraill.*

2. Mae'r gwahanol Gomisiynwyr wedi profi eu gwerth dros y cyfnod estynedig yn y swydd. Felly, mae'n gwneud synnwyr bod pob Comisiynydd yn gwasanaethu am yr un cyfnod.*

3. Credaf y byddai'n cynnig cysondeb gyda'r Comisiynwyr eraill, ond hefyd yn annog cynllunio a gweithredu hirdymor.

4. Dylai'r un amodau fod yn berthnasol i bob comisiynydd. Pam nad dyma'r ateb? Os mai tymor y tri chomisiynydd arall yw saith mlynedd yna yn sicr dyma ddylai'r achos fod ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

5. Mae'n ymddangos yn deg gan fod penodiadau'r Comisiynwyr eraill am 7 mlynedd. Mae angen mwy na 4 blynedd ar Gomisiynydd newydd i gael ei draed dan y bwrdd ac mae'n ymddangos yn hurt bod rhaid i'r Comisiynydd fynd a'i gap yn ei law at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddwy flynedd arall.*

6. Mae cydraddoldeb yn ymddangos yn syniad da.*

7. Mae saith mlynedd yn rhy hir. Gallan nhw eistedd yno a mwynhau gan eu bod nhw'n gwybod eu bod yn ddiogel am saith mlynedd.*

8. Dylid sicrhau fod y Comisiynydd yn rhugl ei Gymraeg/Chymraeg. Nid yw'n dderbyniol apwyntio Comisiynydd uniaith Saesneg. Daeth y Comisiynydd presennol a'i swyddogion i gynhadledd henoed yng Ngwynedd gan roi cyflwyniad (PowerPoint a geiriol) uniaith Saesneg i lond ystafell (tua 80 o bobl) gyda'r mwyafrif helaeth yn Gymry Cymraeg. Bu cryn anniddigrwydd ac roedd diffyg dealltwriaeth y Comisiynydd a'i swyddog o'r sefyllfa ieithyddol yn rhyfeddol.

9. Nid yw 4 blynedd yn ddigon hir i weithredu a gweld canlyniadau unrhyw argymhellion. Mae'r rôl hon yn hanfodol a dylai fod digon o amser i weld canlyniadau gweithredoedd.

10. Rhy hir, angen syniadau newydd.*

11. Nid yw gwleidyddion sy'n gofalu amdanyn nhw'u hunain yn haeddu unrhyw ystyriaeth. Dylai'r cyfnodau fod yn fyr a chael eu penderfynu gan effeithiolrwydd. Beth ydych chi wedi'i gyflawni, beth ydych chi wedi'i wella? Sut mae'r Comisiynydd presennol wedi gwella pethau i bobl hŷn? Dim llawer.

Eto i gyd, rwy'n siŵr ei fod wedi pocedu cyflog uchel a phensiwn mawr. Llawer mwy na'r bobl y mae i fod i'w diogelu a'u cynrychioli.*

12. Dydw i ddim yn credu y dylid ei ymestyn. Os yw comisiynydd yn gwneud gwaith da mewn pedair blynedd, yna gall ofyn am estyniad o ddwy flynedd. Ond beth os yw wedi gwneud gwaith gwael? Neu heb wneud unrhyw beth, pam ddylen ni orfod dioddef yr un sefyllfa a'r un person am 7 mlynedd.*

13. Nid oes achos wedi'i wneud ynghylch pam mae 7 mlynedd yn briodol o gymharu â swyddi cyhoeddus etholedig eraill megis cynghorwyr neu'r Senedd, sy'n 4 neu 5 mlynedd. Byddai'n well gen i dymor o bedair blynedd y gellir ei ymestyn os bydd y naill ochr a'r llall yn dymuno tymor arall.*

14. Nid yw'r comisiynydd presennol wedi gwneud unrhyw gynnydd o ran rheoli meddyginiaethau ar gyfer pobl hŷn. Mae'r defnydd o gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal wedi cynyddu, yn hytrach na gostwng. Mae angen comisiynydd newydd i fynd i'r afael â'r niwed mae meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn ei wneud i bobl hŷn.*

15. Mae pedair blynedd yn hen ddigon i weld a ydyn nhw wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol – os felly, gellir ymestyn eu tymor, neu gallan nhw ailymgeisio. Os na, mae'n bryd cael rhywun arall.*

16. Mae saith mlynedd yn rhy hir i gael yr un person yn y swydd hon. Yn aml mae angen person newydd gyda syniadau newydd a dull newydd ar gyfer swydd o'r fath.*

17. Ein barn ni yw y dylai'r trefniadau ar gyfer pob comisiynydd fod yr un fath.*

18. Mae'r maes Pobl Hŷn yn faes sydd yn wynebu heriau aruthrol ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried bod ein cymdeithas yn mynd yn fwy oedrannus bob blwyddyn, sydd yn cynyddu galw yn sylweddol ar adnoddau megis gofal ac iechyd. I'r perwyl hwnnw, mae'n debyg nad oes 'quick fix' ar gyfer y materion yma ac mai proses estynedig fydd yn hyrwyddo'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen yn genedlaethol a chredaf felly bod swydd 7 mlynedd yn sicr yn fwy addas.

19. Rwy'n credu y dylai fod mwy o fewnbwn cyhoeddus i bob penodiad o'r math hwn, dylai'r cwmpas fod yn ehangach a dylai fod ganddo fwy o ddannedd.*

20. Mae'n ymddangos nad oes rheswm perthnasol pam mae'r cyfnod swydd yn wahanol i'r comisiynwyr eraill, felly dylai fod yr un fath.*

21. Penderfynodd NPC Cymru gefnogi'r cynnig yng nghyfarfod ei Bwyllgor Gweithredol ar 20 Gorffennaf 2022. Mae'r gefnogaeth yn seiliedig ar ein profiad gyda'r comisiynydd presennol y cafodd ei gyfnod swydd ei ymestyn o 2 flynedd a'r ddealltwriaeth bod angen dilyniant ar y rôl y tu hwnt i gylch 5 mlynedd Etholiadau'r Senedd.*

22. Mae mawr angen gwneud y newid hwn i reoleiddio'r gyfundrefn benodi ac osgoi'r angen am estyniadau ad-hoc. Bydd yn alinio'r swydd â swyddi'r Comisiynwyr eraill, yn cynyddu sefydlogrwydd a pharhad y rôl ac yn sicrhau y gall pobl hŷn gynnal perthynas hirdymor â'r Comisiynydd. Byddai'r cynigion yn rhoi mwy o amser a chyfle i ddatblygu a sicrhau newidiadau a fydd o fudd i bobl hŷn – gyda chyfnod mwy realistig i ddylanwadu ar newid mewn cymdeithas sy'n gymhleth yn aml ac sy'n gofyn am ddylanwadu a gweithredu arbenigol a lefel uchel dros amser.*

23. Yn gyffredinol, mae Gofal a Thrwsio yn gyfforddus gyda'r bwriad i ymestyn hyd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Gyda'r tair rôl arall a benodir gan y Prif Weinidog (Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Plant) yn dymor saith mlynedd, byddai'n caniatáu i rôl y Comisiynydd fod yn gyson â'r rolau tebyg hyn.*

24. Byddai ymestyn cyfnod y swydd o bedair blynedd i saith mlynedd yn sicrhau cydraddoldeb â Chomisiynwyr eraill gan y byddai telerau'r swydd yr un fath. Yn ogystal â chydraddoldeb, byddai cyfnod o saith mlynedd yn galluogi'r Comisiynydd i gynllunio ar gyfer y tymor hwy – gan osod Cynllun Strategol a phethau y gellir eu cyflawni mewn amserlen fwy realistig, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawni newid i bobl hŷn. Byddai cyfnod o saith mlynedd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r sefydliad hefyd. Byddai modd rheoli pwysau ariannol dros gyfnod hirach a byddai staff yn cael mwy o sefydlogrwydd gyda thymor hirach.*

25. Cyfle i ddarparu cyfnodau hirach o sefydlogrwydd, sy'n ddefnyddiol i gefnogi cynlluniau a strategaethau tymor canolig i dymor hwy.*

26. Swydd bwysig iawn sy’n fawr ei hangen.*

27. Nid oes gan ein tîm rheoli unrhyw broblem gyda hyn gan ei fod yn dod â'r swydd yr un fath â chomisiynwyr eraill ac yn rhoi lefel o sefydlogrwydd yn y rôl.*

28. Diddymwch rôl a swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar unwaith. Nid oes ganddo unrhyw ddiben ystyrlon ac nid yw'n cael unrhyw effaith ystyrlon ar fywydau pobl hŷn yng Nghymru na'r rhai sy'n darparu gwasanaethau neu gymorth iddynt.*

29. Mae hyn yn alinio cyfnod y swydd ac yn sicrhau cysondeb pan fydd y Llywodraeth yn newid.*

30. 4 blynedd gydag estyniad o ddwy flynedd ddylai fod yr amser penodi delfrydol ar gyfer y swydd hon. Mae egni a menter ar eu huchaf yn ystod dwy flynedd gyntaf penodiad - gallai 7 mlynedd arwain at swydd gyfforddus lle mae ei heffeithiolrwydd yn pylu. Gallech chi drefnu bod y swydd yn mynd yn ôl i'r farchnad ar ôl 4 blynedd, a gallai deiliad presennol y swydd ailymgeisio. Byddai hyn yn haws na cheisio cael gwared ar ddeiliad swydd sy'n perfformio'n wael.*

31. Byddai 7 mlynedd yn eu gwneud yn rhy hunanfodlon ac yn colli'r ysgogiad i ofalu am bobl.*

32. Dylid cynnal arfarniad ffurfiol o effeithiolrwydd y comisiynydd, nid yw'n glir beth mae unrhyw un o ddeiliaid y swydd wedi'i gyflawni. Nid yw hynny'n sarhau comisiynwyr yn unigol nac ar y cyd, ond mae'n cydnabod nad busnes y Senedd yw llawer o'r polisi sy'n ymwneud â heneiddio. Dylid gofyn y cwestiwn a yw'r rôl hon yn gwella llais pobl hŷn ai peidio.*

33. Rydym yn cytuno â'r egwyddor o gysondeb rhwng pedwar Comisiynydd Cymru sydd â'r potensial i alluogi cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.*

34. Mae'n bwysig gwneud newidiadau hirdymor yn hytrach nag edrych ar y tymor gwleidyddol hwn yn unig. Mae 7 mlynedd yn amser lle gall newid ddigwydd, cael ei fonitro, ei werthuso, ei adolygu a'i adnewyddu. Gellir disgwyl i'r cyfrifoldeb dros gyflawni nodau ac amcanion penodol ar ddechrau'r cyfnod gael ei adrodd tuag adeg y cyfnod trosglwyddo ar y diwedd.*

35. Fel aelod o Fforwm Pobl Hŷn Cymru a Fforwm '50 Plus' Casnewydd, rydw i wedi gwylio gweithrediadau swyddfa'r comisiynydd dros sawl blwyddyn. Rydw i wedi dod i'r casgliad nad yw'r swydd yn cael fawr o effaith ar fywydau'r bobl hŷn dlotaf sy'n byw yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'n anodd barnu effeithlonrwydd neu ddiffyg effeithlonrwydd y swydd gan nad yw cofnodion, rhestri presenoldeb nac agendâu’n cael eu cyhoeddi. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn i bobl wybod eu bod yn cael eu cynrychioli. Ni welaf unrhyw reswm dros ymestyn hyd swydd sy'n gwneud cyn lleied i bobl hŷn dlotaf Cymru.*

36. Diddymwch y swydd, nid yw'r bobl hŷn rydw i'n siarad â nhw ei hangen na'i heisiau. Does neb yn gwybod beth mae Comisiynydd Pobl hŷn Cymru yn ei wneud.*

37. Os bydd y comisiynydd a benodwyd yn anfoddhaol (am resymau iechyd, teulu neu bersonol efallai), mae 7 mlynedd yn rhy hir iddo aros yn y swydd. Byddai 4 blynedd, ynghyd â'r posibilrwydd o ailbenodi am 4 blynedd arall, yn fwy diogel ac felly'n well. Mae'r sylw hwn yn berthnasol i bob comisiynydd.*

38. Credwn fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rôl hanfodol i hyrwyddo hawliau pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth galon y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Er mwyn cael y mwyaf o amser i gyflawni eu cynllun gwaith, dylai cyfnod y swydd fod yr un fath â'r tri Chomisiynydd arall.*

39. Credwn fod budd tebygol o gymhwyso cysondeb ymhlith cyfnodau swydd comisiynwyr yng Nghymru. Rydym yn deall bod y Comisiynydd Pobl Hŷn presennol wedi cael estyniad. Bydd ymestyn hyd y swydd yn osgoi'r angen i'r Comisiynydd nesaf geisio estyniad neu ailymgeisio drwy broses gystadleuol. Bydd hyn yn lleihau'r adnoddau cyhoeddus sydd eu hangen i ystyried cais

neu broses recriwtio newydd. Mae'n ymddangos yn briodol cynnig y rôl fel rôl tymor hwy o'r cychwyn cyntaf, i alinio'r swydd yn well ag uwch swyddi tebyg.*

40. Mae cyfnod o 4 blynedd yn rhy fyr i'r Comisiynydd Pobl Hŷn gwblhau ei thasgau.*

## Atodiad 3

**Gofynnodd Cwestiwn 4 i'r ymatebwyr wneud sylwadau ar yr effeithiau y bydd newid y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

1. Gall ond bod yn gadarnhaol.*

2. Nid wyf yn meddwl byddai unrhyw newid.

3. Dylai'r swydd yma a phob un o'r swyddi yma fod yn rhai ble mae rhywun unai yn siaradwr Cymraeg neu'n ddysgwr ac yn ymrwymo i barhau i ddysgu. Ar hyn o bryd mae'r swyddi’n cael ei llenwi gan unigolion sydd prin yn medru'r Gymraeg. Er bod ymrwymiad i ddysgu wedi cael ei roi nid yw hyn yn cael ei blismona ac felly unwaith mae rhywun wedi cael y swydd mae'r ymrwymiad yn golygu dim. Dydi hyn ddim digon da. Mae Comisiynydd o unrhyw fath yn un sydd yn cefnogi'r cyhoedd ar draws Cymru a dylai'r iaith Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu’n effeithiol gyda'r unigolion maent yn eu cynrychioli.

4. Beth am wneud y swyddi’n rhai 7 mlynedd ar amod o ddatblygiad parhaus i ddysgu'r Gymraeg a bod hyn yn cael ei fesur yn fanwl trwy arholiadau fel y Dystysgrif Iaith? Un peth ydi ymrwymo i ddysgu - mae DYSGU'R iaith yn rhywbeth hollol wahanol.

5. Dydw i ddim yn gweld sut y gall y newidiadau hyn effeithio ar y Gymraeg. Mae swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn eisoes yn anfon gwybodaeth ddwyieithog ac mae rhai siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y swyddfa.

6. Mae'n hollbwysig fod y Comisiynydd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

7. Mae camau bychan ar waith eisoes i drio annog lefelau staffio o fewn y Maes Gofal Hŷn a chredaf y byddai adnodd ychwanegol fan hyn yn cynorthwyo gyda'r ymdrechion i recriwtio yn lleol ag yn Gymraeg. Mae angen sicrhau bod gan y Comisiynydd y gallu i siarad Cymraeg. Mae strategaeth Mwy na Geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol yn hollbwysig i bobl hŷn, ac mae felly'n hanfodol bod y Comisiynydd yn medru ymgysylltu â phobl yn eu hiaith o'u dewis.

   Byddai penodi Comisiynydd uniaith Saesneg yn cael effaith negyddol ar y

boblogaeth.

8. Byddai hyn yn caniatáu parhad y trefniadau presennol ar y Gymraeg a gyflwynwyd ac a gafodd eu gwella gan Gomisiynwyr olynol.*

9. Nid yw Gofal a Thrwsio yn credu y bydd ymestyn cyfnod y swydd ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Fodd bynnag, o'r data a gasglwyd gan y Cyfrifiad yn 2021, mae 1 o bob 5 o bobl 65 oed a hŷn yn siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i bron i 117,000 o bobl. Gallai rhai pobl hŷn sy'n siarad Cymraeg deimlo nad yw eu hiaith a'u hunaniaeth yn cael eu hadlewyrchu'n gywir ym mhenodiad y Comisiynydd. Fodd bynnag, mae hyn yn anochel mewn rhai achosion gan ein bod yn teimlo y byddai'n anfoesegol ystyried ymgeiswyr dwyieithog yn unig ar gyfer swydd fel hon.*

10. Trwy fod yn rhugl yn y ddwy Iaith fe fydd yn dangos mwy o barch at bobl hŷn Cymru.

## Atodiad 4

**Gofynnodd cwestiwn 5 sut roedd yr ymatebwyr yn credu y gall y newidiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.**

1. Rwy'n awgrymu y dylai pob araith gyhoeddus gan y Comisiynydd ddechrau a gorffen yn Gymraeg.

2. Mae hi'n bwysig sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gwbl gyfartal.

3. Fel soniais uchod - tydi'r rheolau ddim digon llym ar hyn o bryd. Nid yn unig i'r swydd Comisiynydd Pobl Hŷn ond i'r ddwy arall sef y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae angen newid hyn a rhoi pethau cadarn yn eu lle. Mae agwedd tuag at y Gymraeg yn warthus a tydi o ddim digon da. Mewn awdurdodau lleol fel Gwynedd mae'n anodd cyfiawnhau ymweliadau gan rywun sydd yn gwybod dim mwy na "bore da" a tydi hyn ddim digon da.

   Mae angen naill ai i'r swyddi newid i fod yn Gymraeg hanfodol (mae hen ddigon o siaradwyr sy'n medru'r Gymraeg sydd hen ddigon 'tebol) neu fod mesurau yn eu lle i fedru gweld os oes datblygiad yn nysgu'r iaith ac os nad ydynt yn cyrraedd 'lefel' benodol o fewn dwy flynedd yna bydd gofyn enwebu comisiynydd arall.

4. Efallai y byddai'n ddefnyddiol hysbysebu am swydd newydd fel un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, ond rwy'n tybio bod hyn yn digwydd yn barod.*

5. Mae swydd y Comisiynydd yn methu ar hyn o bryd oherwydd y diffyg Cymraeg sydd ar gael.

6. Byddai Comisiynydd dwyieithog yn ddymunol ond nid yn hanfodol.*

7. Fel uchod, nid ydym yn credu y bydd ymestyn cyfnod y swydd yn cael effaith ar y Gymraeg, gan mai'r person a benodir i'r rôl, yn hytrach na hyd y rôl honno, fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar hyn. Byddem yn croesawu unrhyw ymgeiswyr yn y dyfodol sy'n ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd a hyd eithaf eu gallu – mewn areithiau, yn y cyfryngau cymdeithasol, ymddangosiadau cyhoeddus ac eraill. Byddai hyn yn ffordd gadarnhaol o ddangos arweinyddiaeth, ond nid yw hyn yn ofyniad i'r rôl, felly nid yw o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn o reidrwydd.

8. Rwy'n teimlo y byddai'n drueni pe bai'r ymgeisydd gorau’n cael ei ddiystyru oherwydd ei rugldер yn y Gymraeg.

## Atodiad 5

**Gofynnodd Cwestiwn 6 i'r ymatebwyr beth yn eu barn nhw fyddai'r effeithiau tebygol y newidiadau hyn ar unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig?**

1. Byddai cysondeb a chyfleoedd i feithrin perthnasoedd hirdymor yn fuddiol i bawb.

2. Mae llawer o sefydliadau Pobl Hŷn yn gwerthfawrogi'r help a'r cymorth gan y Comisiynydd a'i swyddfa ar hyn o bryd. Mae parhad y gwasanaeth a roddir yn hanfodol i berson hŷn.

3. Dylai parhad grwpiau arwain at gyfathrebu llyfnach.

4. Os byddwch chi'n ei newid i 7 mlynedd a bod y comisiynydd yn dda i ddim, neu'n ddiog, neu'r ddau, bydd y rhai yr effeithir arnyn nhw'n gorfod dioddef comisiynydd diwerth.

5. Barn NPC Cymru yw ein bod yn cefnogi ac yn deall bod angen parhad yn y rôl y tu hwnt i gylch 5 mlynedd Etholiadau'r Senedd, a byddai hyn o fudd i grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

6. Dylai gwell cysondeb a chyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio wella ymgysylltiad a llais pobl hŷn ac, o bosibl, y cyfle i ymateb a gwneud gwelliannau lle mae materion a phryderon yn cael eu codi. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn. Mae diogelwch cymunedol yn bryder i

bobl hŷn yn aml, felly gallai'r tymor hwy alluogi mwy o gydweithio rhwng asiantaethau datganoledig a rhai a gadwyd yn ôl.

7. Mewn ffordd debyg i'n hymateb ynghylch y Gymraeg, nid ydym yn rhagweld y bydd newid cyfnod y swydd ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael unrhyw effaith andwyol ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

   Rhaid cael sicrwydd gan bob Comisiynydd a benodir yn y dyfodol y byddant yn gweithio'n deg ar gyfer pob person hŷn, waeth beth yw eu hunaniaeth neu nodweddion gwarchodedig, i sicrhau cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth a chyfle i gael eu clywed.

   Byddai'n gadarnhaol gweld symudiad i gyfweliad a cheisio penodi ymgeiswyr mwy amrywiol i'r rôl hon, gan fod patrwm cryf wedi bod yn neiliad swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn. Byddai hyn yn adlewyrchu ein demograffeg newidiol yng Nghymru ac yn caniatáu i bobl hŷn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig eraill weld rôl comisiynydd fel rhywbeth sy'n eu hadlewyrchu ac yn eu cynrychioli nhw.